

Grafftiad i ddargyfeirio'r rhydweliâu coronaidd heb ddefnyddio pwmp

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar bryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â sut a phryd y gellir defnyddio grafftiad i ddargyfeirio'r rhydweliâu coronaidd (CABG) heb ddefnyddio pwmp yn y GIG i drin pobl sydd â chlefyd rhydweliâu coronaidd (a elwir hefyd yn glefyd coronaidd y galon). Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn am nad oes llawer o wybodaeth hyd yn hyn am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio clefyd rhydweliâu coronaidd na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â chlefyd rhydweliâu coronaidd, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Os yw meddyg am ddefnyddio CABG heb ddefnyddio pwmp ar gyfer clefyd rhydweliâu coronaidd, dylai sicrhau bod cleifion yn cael gwybod y cânt gynnig CABG heb ddefnyddio pwmp yn hytrach na llawdriniaeth gan ddefnyddio pwmp, ond y gall fod yn bosibl drosglwyddo at lawdriniaeth ar y pwmp. Dylai cleifion hefyd gael gwybod am anfanteision posibl y driniaeth (er enghraifft, symptomau'n dychwelyd), yn ogystal â'r manteision, gan gynnwys llai o siawns o gael strôc. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth.

Dylai timau llawfeddygaeth ar y galon sy'n fedrus mewn llawdriniaeth gan ddefnyddio pwmp a heb ddefnyddio pwmp benderfynu pa gleifion a ddylai gael y driniaeth hon, a dylai'r driniaeth ond cael ei rhoi gan y timau hynny.

Mae NICE yn gofyn i feddygon anfon gwybodaeth am bawb a gaiff y driniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i'r Gronfa Ddata Ganolog ar gyfer Archwiliadau Cardiaidd yn y DU er mwyn gallu archwilio pa mor ddiogel yw'r driniaeth a/neu pa mor dda y mae'n gweithio dros gyfnod o amser.

*Efallai nad hon yw'r
unig driniaeth bosibl
ar gyfer clefyd
coronaidd y
rhydweli.*

*Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch
p'un a yw'n addas i
chi a pha opsiynau
triniaeth eraill sydd
ar gael.*

Grafftiad i ddargyfeirio'r rhydwelïau coronaidd heb ddefnyddio pwmp

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch meddyg i gael disgrifiad llawn.

Mae clefyd rhydwelïau coronaidd yn digwydd pan fydd pibelli sy'n cludo gwaed i'r galon (y rhydwelïau coronaidd) yn culhau neu'n cael eu blocio wrth i fraster gronni. Gall hyn achosi problemau fel angina (poen yn y frest), trawiad ar y galon a'r galon yn methu.

Un o'r opsiynau o ran trin clefyd rhydwelïau coronaidd yw grafftiad i ddargyfeirio'r rhydweli coronaidd, a elwir yn CABG yn aml. Caiff hyn ei berfformio 'gan ddefnyddio pwmp' fel arfer, gyda'r galon yn cael ei hatal dros dro. Caiff pibell waed iach (fel arfer o'r goes neu'r frest) ei hatodi i'r rhydwelïau coronaidd penodol fel bod llif y gwaed yn dargyfeirio heibio'r rhan honno o'r rhydwelïau sydd wedi blocio. Defnyddir peiriant dargyfeirio arbennig i gynnal y cylchrediad a darparu ocsigen i'r gwaed pan nad yw'r galon yn curo.

Nod y driniaeth heb ddefnyddio pwmp yw lleihau'r risg o strôc sy'n gysylltiedig â CABG gan ddefnyddio pwmp. Caiff y driniaeth ei chyflawni gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Caiff y frest ei hagor. Defnyddir dyfais ansymudoli i leihau symudiad y galon wrthi iddi guro a dal y rhydwelïau perthnasol yn llonydd tra bod grafftau'r bibell waed iach yn cael eu pwytho atynt.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod CABG heb ddefnyddio pwmp yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau o hyd eich bod yn deall y manteision a'r risgiau cyn gofyn i chi gytuno iddi.

Mae NICE wedi penderfynu hefyd bod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion am eich triniaeth i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael
y driniaeth hon, cael
triniaeth wahanol,
neu beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar naw astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Ni chanfu astudiaeth fawr o nifer o astudiaethau llai (cyfanswm o 5537 o gleifion) wahaniaeth sylweddol yn y gyfradd marwolaeth hirdymor rhwng CAGB gan ddefnyddio pwmp a heb defnyddio pwmp.

Mewn astudiaeth arall roedd cyfran y cleifion â phroblemau hirdymor difrifol (marwolaeth, strôc neu drawiad ar y galon) yn uwch yn y grŵp gan ddefnyddio pwmp nag yn y grŵp heb ddefnyddio pwmp (367 allan o 2377 a 72 allan o 637 o gleifion) ar ôl blwyddyn. Mewn astudiaeth o 2203 o gleifion, roedd cyfran y cleifion a gafodd sgîl-efeithiau difrifol (marwolaeth, trawiad ar y galon neu driniaethau pellach) yn uwch yn y grŵp heb ddefnyddio pwmp nag yn y grŵp gan ddefnyddio pwmp (105 allan o 1104 o gleifion a 78 allan o 1099 o gleifion) rhwng mis a blwyddyn ar ôl y llawdriniaeth.

Mewn adroddiad o 86,047 o gleifion yn y DU, roedd cyfraddau goroesi ar ôl blwyddyn tua 96% ac yn 89% ar ôl pum mlynedd o ran CAGB gan ddefnyddio pwmp a heb ddefnyddio pwmp.

Canfu dwy astudiaeth fawr o astudiaethau llai (yn cynnwys cyfanswm o 302,527 o gleifion) nad oedd gwahaniaeth sylweddol o ran y perygl y byddai angen triniaeth bellach ar gleifion a gafodd CAGB heb ddefnyddio pwmp o'u cymharu â chleifion a gafodd CAGB gan ddefnyddio pwmp.

Canfu un astudiaeth o 3014 o gleifion nad oedd gwahaniaeth sylweddol yn nifer yr achosion aflwyddiannus o grafftio ymhlith cleifion a gafodd

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 249

CAGB heb ddefnyddio pwmp (181 allan o 402) o'i gymharu â chleifion a gafodd CAGB gan ddefnyddio pwmp (697 allan o 1518), 12 i 18 mis ar ôl y driniaeth. Canfu astudiaeth o 2203 o gleifion a gafodd gyda CAGB gan ddefnyddio pwmp a heb ddefnyddio pwmp y cafodd nifer sylweddol lai o grafftiau eu gosod nag a gynlluniwyd mewn 18% o gleifion yn y grŵp heb ddefnyddio pwmp ac mewn 11% yn y grŵp gan ddefnyddio pwmp.

Mewn un astudiaeth, troswyd CAGB heb ddefnyddio pwmp yn CAGB gan ddefnyddio pwmp yn ystod y driniaeth mewn 12 allan o 312 o gleifion.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r ffactorau llwyddiant allweddol yw'r angen am driniaethau pellach i wella'r cyflenwad gwaed, lleddfu symptomau a hyd yr arhosiad yn yr ysbyty.

Risgiau a phroblemau posibl

Canfu astudiaeth fawr o 297,000 o gleifion a ystyriodd ganlyniadau sawl astudiaeth wahanol fod y gyfradd marwolaeth o fewn 30 diwrnod i'r driniaeth yn is ymhlith cleifion a gafodd CABG heb ddefnyddio pwmp na'r rhai a gafodd CABG gan ddefnyddio pwmp. Ni chanfu astudiaeth arall, o 2203 o gleifion, wahaniaeth sylweddol: bu farw 18 allan o 1104 o gleifion a gafodd CABG heb ddefnyddio pwmp ac 13 allan o 1099 o gleifion a gafodd CABG gan ddefnyddio pwmp o fewn 30 diwrnod.

Canfu astudiaeth o 297,000 o gleifion fod strociau yn llai cyffredin yn y grŵp heb ddefnyddio pwmp na'r grŵp gan ddefnyddio pwmp.

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 249

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mewn theori, y gallai'r problemau posibl gynnwys heintio, gwaedu a phroblemau gyda'r arennau. Gall camgymeriad wrth bwytho'r pibellau gwaed achosi i'r grafftiaid fethu.

Rhagor o wybodaeth am glefyd coronaidd y galon;

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar glefyd coronaidd y galon, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'grafftiad i ddargyfeirio'r rhydweliâu coronaidd heb ddefnyddio pwmp'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG249

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8356-8

N2453 1P January 11

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2011. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.